## YR ATODLEN

Rheoliad 3

**1.**—(1) Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y cynllun.

(2) Wrth gyfrifo'r targed, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 87(4) o Ddeddf 2013.

**2.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

**3.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio data sy'n deillio o'i adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer ei ardal (o dan ddyletswyddau a nodir yn rheoliad 3 o Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016(**1**)) er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.

**4.**—(1) Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant yn y flwyddyn derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y cynllun.

(2) Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant yn y flwyddyn derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

**5.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd ceisiadau y mae'r awdurdod lleol yn eu gwneud am gyllid grant gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag ysgolion a gynhelir ganddo yn ystyried y targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y cynllun.

**6.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd er mwyn sicrhau parhad mewn trefniadau ar gyfer personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i'w ardal.

**7.** Datganiad sy'n nodi trefniadau'r awdurdod lleol o ran ei ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid(**2**) i addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut a phryd y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni a gwarcheidwaid.

**8.** Datganiad sy'n nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi gweithio mewn partneriaeth â'i fforwm cynllunio Cymraeg mewn addysg (os yw wedi ei sefydlu yn ardal yr awdurdod lleol) i lunio cynllun yr awdurdod a sut y bydd y fforwm yn goruchwylio ei weithredu a'i werthuso.

**9.** Datganiad sy'n nodi—

(a) sut y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg a gynigir;

(b) sut y bydd yn rhoi gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid sy'n datgan bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau ni waeth beth fo'u cefndir ieithyddol;

(c) sut y bydd yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a all ddod yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

**10.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod personau a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau cadw yn destun pryder i'r awdurdod.

**11.**—(1) Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y cynllun yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

(**1**) O.S. 2016/88 (Cy. 42).
(**2**) Plant (sy'n 7 oed neu drosodd) nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl diwedd y cyfnod sylfaen.

(2) Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y cynllun yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**12.**—(1) Targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y cynllun yn nifer a chanran y personau ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio am gymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(2) Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y cynllun yn nifer a chanran y personau ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio am gymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**13.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cymorth i barhau â'r addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir ar gyfer personau ym mlwyddyn 10 ac uwch drwy gydweithio ag ysgolion eraill a SABau eraill os bydd angen.

**14.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cydweithio a'i ysgolion a SABau (os bydd angen) i gyd-drefnu darpariaeth Gymraeg fel pwnc i bersonau sydd ym mlwyddyn 10 ac uwch yn ei ysgolion uwchradd a gynhelir.

**15.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella sgiliau Cymraeg personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw ysgol a gynhelir ganddo er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg.

**16.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio canfyddiadau ei adolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**3**) er mwyn gwella darpariaeth Gymraeg ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu o fewn y sector anghenion dysgu ychwanegol.

**17.** Datganiad sy'n nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol i adnabod y gweithlu y mae ei angen arno er mwyn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun yn unol â thargedau'r cynllun, ac i gyfrifo unrhyw ddiffyg disgwyliedig yn ei weithlu.

**18.** Datganiad sy'n nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd wrth gynllunio a darparu cymorth er mwyn gwella sgiliau Cymraeg athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal.

**19.** Datganiad sy'n nodi ymrwymiad yr awdurdod lleol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau eraill, i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ystyried yn ystod ystyriaethau ynghylch safonau addysgol cyfrwng Cymraeg ysgolion a gynhelir yn ei ardal.

**20.** Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol, gan gydweithio ag awdurdodau lleol eraill fel y bo angen, yn hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â chludiant i ddysgwyr yn unol â'r ddyletswydd a nodir o dan adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**4**).

(**3**) 2018 dccc 2.
(**4**) 2008 mccc 2.